Adroddiad cynnydd asesiad personol – Rhifedd (Rhesymu)

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deall adroddiad y dysgwr

Mae eich plentyn wedi gwneud asesiad personol byr ar-lein ar gyfer Rhifedd (Rhesymu). Mae'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddeall yr adroddiad a roddwyd iddyn nhw. Pwrpas yr asesiadau hyn yw helpu plant i wneud cynnydd. Ar ôl i'ch plentyn wneud asesiad Rhifedd (Rhesymu) bydd gan ei athro/athrawes wybodaeth sy'n cysylltu â gweithgareddau y gallai eu defnyddio gyda'ch plentyn yn y dosbarth i helpu i ddatblygu ei sgiliau rhesymu ymhellach.

Beth sy'n cael ei asesu ar gyfer Rhifedd (Rhesymu)?

Mae asesiadau personol Rhifedd (Rhesymu) yn cynnig gwybodaeth am ba mor dda y gall eich plentyn ddefnyddio a chymhwyso'r hyn y maen nhw'n ei wybod er mwyn datrys problemau rhifiadol.

Sut mae'r asesiad yn gweithio?

Dewisir y cwestiynau o 'gronfa' fawr a gynlluniwyd ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9. Mae pob cwestiwn, neu set o gwestiynau, wedi'u dewis yn seiliedig ar yr ateb a roddwyd gan y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol, neu'r set o gwestiynau blaenorol. Daw'r asesiad i ben gyda stori neu senario a chyfres o broblemau rhifiadol cysylltiedig y mae angen i'r dysgwr eu datrys.

Bydd dysgwyr yn cael rhai cwestiynau'n gywir a rhai cwestiynau'n anghywir, gan mai dyna sut y cesglir gwybodaeth am yr hyn y gall pob dysgwr ei wneud ar yr adeg benodol honno. Mae hyn yn golygu y bydd asesiad pob dysgwr yn unigryw iddyn nhw.

Beth mae'r adroddiad yn ei ddweud?

Mae adran gyntaf yr adroddiad yn dangos cynnydd eich plentyn yn yr asesiadau personol Rhifedd (Rhesymu). Mae'r asesiadau a wnaeth eich plentyn yn cael eu dangos ar y graff. Efallai y bydd eich plentyn wedi gwneud mwy nag un asesiad yn y flwyddyn, felly bydd mwy nag un asesiad ar y graff: naill ai un neu ddau ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn yr asesiadau, mae'r graff yn dangos lle mae'ch plentyn arni o'i gymharu â phlant eraill sydd yn ei grŵp blwyddyn ledled Cymru. Byddwch yn gallu gweld cynnydd eich plentyn o un flwyddyn i'r llall.

Mae ail adran yr adroddiad yn dangos sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer eich plentyn ar ran ei asesiad diweddaraf. Mae hyn yn dangos sut y mae eich plentyn wedi'i wneud o'i gymharu â phlant eraill yng Nghymru sydd wedi eu geni yn yr un flwyddyn a'r un mis.

70–130 yw ystod y sgôr a'r cyfartaledd yw 100.

Mewn rhai achosion, os bydd gan blentyn sgôr safonedig ar sail oedran uchel iawn, caiff ei dangos fel 'mwy na 130' (130+), a chaiff sgôr plentyn sy'n datblygu sgiliau'n arafach ei dangos fel 'llai na 70' (<70). Bydd tua 2.5 y cant o ddysgwyr yn cael sgôr sy'n llai na 70, a bydd tua 2.5 y cant o ddysgwyr yn cael sgôr sy'n fwy na 130.

Am ragor o wybodaeth am asesiadau personol ewch i
hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45367
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg